# Materion Arwyddocaol sy’n codi o’r Archwiliad

## Camddatganiadau nas cywirwyd

11 Isod rydym yn nodi’r camddatganiad a nodwyd gennym yn y cyfrifon, sydd wedi cael ei drafod gyda’r rheolwyr ond sy’n dal heb ei gywiro. Gofynnwn ei fod yn cael ei gywiro. Os byddwch yn penderfynu peidio â chywiro’r camddatganiad yma, gofynnwn ichi ddarparu’r rheswm dros beidio â’i gywiro ar ein cyfer yn ysgrifenedig.

### Eiddo, Offer, a Chyfarpar (£1,106,000)

12 Roedd datgeliad naratif yn Nodyn 15 ‘Eiddo, Offer, a Chyfarpar’ yn cyfeirio at 10 adeilad ysgol eglwys nad oedd yn eiddo i Gyngor Gwynedd ac a gafodd eu heithro o ‘Werth Llyfr Net’  ‘Tir ac Adeiladau’ ar 31 Mawrth 2023. Nododd ein gwaith archwilio fod y Cyngor yn berchen ar un o’r adeiladau ysgol gwerth £1,106,000 ac fe’i eithrwyd yn anghywir o Nodyn 15.

13 Mae’r hepgoriad wedi arwain at danddatgan Gwerth Llyfr Net ‘Tir ac Adeiladau’ ar 31 Mawrth 2023 o £1,106,000 oherwydd dylai’r ysgol fod wedi cael ei gyfrifo fel ased yn Nodyn 15 a’r Fantolen. Gan nad oedd y balans a gamddatganwyd yn faterol, nid yw'r Cyngor wedi gweithredu'r gwelliant hwn.

## Camddatganiadau a gywirwyd

14 Roedd camddatganiadau yn y cyfrifon yn wreiddiol sydd bellach wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr. Fodd bynnag, rydym ni’n credu y dylid dwyn y rhain i’ch sylw a chânt eu nodi gydag esboniadau yn **Atodiad 3.**

## Materion Arwyddocaol eraill sy’n codi o’r Archwiliad

15 Yn ystod yr archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion sy’n ymwneud â’r cyfrifon ac yn rhoi gwybod ichi am unrhyw faterion arwyddocaol sy’n codi. Roedd un mater yn codi yn y meysydd hyn eleni.

16 Mae Atodiad 3 yn nodi newid i Nodyn 21 ‘Credydwyr Tymor-‘Byr a Nodyn 18a ‘Dyledwyr Tymor-Byr’ o £4,587,000. Roedd yr addasiad hwn yn ymwneud â nifer o falansau credydwyr a oedd hefyd â trafodion dyledwyr cyfatebol yn erbyn yr un cod cyfrif. Arweiniodd hyn at orddatganiad cyfatebol o'r ddau falans.

17 Gwnaethom waith pellach i gael sicrwydd nad oedd unrhyw risg pellach o wallau materol o ganlyniad i’r mater hwn. Nododd ein gwaith fod ansicrwydd gweddilliol anfaterol o £571,000 o hyd yng nghredydwyr masnachol ac arall, a dyledywr masnachol ac arall. Cyn paratoi datganiadau ariannol drafft 2023-24, dylai Cyngor Gwynedd adolygu’r balansau sy’n weddill i sicrhau bod y mater yn cael ei ddatrys yn llawn.

| | | |
|---|---|---|
| **Mantolen:**<br>Cynydd yn Arian a Chywerthoedd Arian o £1,327,000.<br>Cynydd yng Nghredydwyr Tymor Byr o £1,327,000. | **Nodyn 19 Arian a Chywerthoedd Arian/ Nodyn 21 Credydwyr Tymor Byr**<br>Addasiad i adlewyrchu taliad o £1,327,000 yn y flwyddyn ariannol gywir. | Er mwyn sicrhau bod yr asedau a gynhwysir yn y datganiadau ariannol yn cael eu datgelu ar eu gwerth cywir. |
| £4,587,000 | **Nodyn 21 Credydwyr Tymor Byr/ Nodyn 18 Dyledwyr Tymor Byr**<br>Gwnaed addasiadau gan fod nifer o falansau credydwyr gyda balans dyledwyr cyfatebol yn erbyn yr un cod cyfrif a oedd yn ymwneud â'r un trafodiad. Arweiniodd hyn at orddatganiad yn y ddau nodyn. | Er mwyn sicrhau bod credydwyr a dyledwyr a gynhwysir yn y datganiadau ariannol yn cael eu datgelu ar eu gwerth cywir. |
| Gwelliannau amrywiol | **Nodyn 30 Taliadau i Swyddogion**<br>Gwnaethpwyd diwygiadau i'r datgeliadau canlynol yn Nodyn 30c 'Nifer y gweithwyr eraill a gafodd fwy na £60,000 ac sy'n cynnwys tâl a buddion terfynu'<br>• Mae nifer y gweithwyr ym mand £75,000 - £79,999 wedi cynyddu gan un gweithiwr.<br>• Ychwanegwyd troednodyn i egluro bod un gweithiwr yn dod o Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir. | Er mwyn sicrhau bod y datgeliadau yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) a Chod CIPFA. |
| Datgeliad yn unig | **Nodyn 33 Partion Cysylltiedig**<br>Mae'n ofyniad bod yr holl drafodion sy'n ymwneud a phartïon cysylltiedig yn cael eu datgelu. Bu nifer o ddiwygiadau sylweddol i'r ffigyrau a'r naratif i sicrhau bod yr holl incwm a gwariant sy'n ymwneud â phartïon cysylltiedig yn ystod y flwyddyn wedi'u cynnwys:<br>• Mae ffigyrau trafodion incwm wedi eu cynnwys am y tro cyntaf;<br>• Yn y gorffennol, roedd y ffigyrau credydwyr wedi eu cynnwys yn y golofn 'Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor' a'r gwariant heb credydwyr yn y golofn 'Taliadau a wnaethpwyd'. Mae'r ffigyrau credydwyr wedi eu cynnwys gyda'r ffigyrau gwariant ac ail enwir y colofn i 'Taliadau a wnaethpwyd (yn cynnwys credydwyr)'. | I gydymffurfio â gofynion y Cod Ymarfer ar gadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022-23 (Cod Ymarfer). |

